

## Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru: Cofnodion Cyfarfod

Dydd Iau 30 Ebrill 2020 – 9:45-12:15

<b>Yn bresennol</b>			
Lewis	Clarke	LC	RSPCA Cymru
Mal	Colley	MC	Gofal Canser Tenovus
Dave	Cook	DC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cerys	Furlong	CF	Chwarae Teg
John	Gossage	JG	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Thomas	Hollick	TH	The Wallich
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru
Ben	Proctor	BP	Data Orchard
Ginger	Wiegand	GW	Grŵp Cymorth i Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig
<b>Cyflwynwyr</b>			
Tegwen	Green	TG	Swyddfa Ystadegau Gwladol
Neil	Townsend	NT	Swyddfa Ystadegau Gwladol
<b>Ymddiheuriadau</b>			
Gonw	ab Islwyn	Gal	Gofal Canser Tenovus
Will	Atkinson	WA	The Wallich
Sam	Austin	SA	Llamau
Martin	Fidler-Jones	MFJ	Gofal Canser Tenovus
Aaron	Fort	AF	Llywodraeth Cymru
Paul	Glaze	PG	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Adam	Golten	AG	The Wallich
Gwennan	Hardy	GH	Cyngor ar Bopeth
Catrin	James	CJ	Urdd Gobaith Cymru
David	James	DJ	Galluogi Tai Gwledig Sir Fynwy
Nick	Lewis	NL	Umbrella Cymru
Ben	Lloyd	BL	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Carys	Moseley	CM	Cytûn
Anna	Nicholl	AN	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Michelle	Wales	MW	Shelter Cymru

1	Croeso a Phapurau	Glyn Jones, Llywodraeth Cymru
<p>Nododd GJ ymddiheuriadau ar ran y rheini nad oeddent yn bresennol a diolchodd i'r rheini a oedd wedi llwyddo i ymuno.</p> <p>Cyfeiriodd GJ at gamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol (13 Rhagfyr 2019): mae sleidiau o weminar gwirfoddoli dadansoddol wedi'u hanfon. Esboniodd SL nad yw'r fersiwn alffa o adnodd canfod data StatsCymru wedi'i rhannu eto oherwydd Covid-19 a'r ffaith bod adnoddau wedi'u hailgyfeirio.</p> <p>Y Cylchlythyr Ystadegau Chwarterol: soniodd GJ yn arbennig am Effeithlonrwydd Ynni Anheddau a'r Arolwg Cenedlaethol. Nododd SL fod data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael eu cyhoeddi o hyd gan y gall helpu i nodi cymunedau sy'n wynebu mwy o risg yn sgil Covid-19.</p> <p>Y Cylchlythyr Demograffeg: nododd GJ fod yr amcanestyniadau ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol Cymru wedi'u cyhoeddi ym mis Chwefror 2020. Mae gwaith yn parhau i ddiweddarau'r amcanestyniadau amrywiaethol a pharciau cenedlaethol.</p> <p>Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: nododd SL y bwriedir cyhoeddi'r erthygl Amcangyfrifon o'r Angen am Dai a'r teclyn rhyngweithiol ar 20 Mai 2020. Diweddarwyd y gwaith hwn i ystyried yr amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar ffigurau 2018 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020.</p>		
2	Covid-19	Glyn Jones, Llywodraeth Cymru
<p>Nododd GJ fod adnoddau dadansoddol yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill oherwydd pandemig Covid-19. Bydd llawer o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu canslo/gohirio/crynhoi fel bod modd hoelio sylw ar waith sy'n ymwneud â Covid. Pwysleisiodd GJ y bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu hystyried yn ofalus a bydd diweddariadau, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â'r economi ac iechyd, yn cael eu cyhoeddi o hyd. Cytunodd GJ i rannu'r llythyr i awdurdodau lleol ynghylch gohirio casglu data a gwahoddod aelodau i nodi a oes unrhyw ddata penodol yn bwysig iawn i'w sefydliadau.</p> <p>Soniodd GJ fod y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) wedi chwarae rôl allweddol o ran helpu LIC i ymateb i'r argyfwng a bydd yn parhau i helpu i gynllunio ar gyfer adfer yn y dyfodol.</p> <p>Pwysleisiodd GJ fod LIC yn ymrwymedig i ryngweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall pa ymchwil sy'n cael ei hystyried yn bwysig a gwahoddod yr aelodau a oedd yn bresennol i nodi'r data sy'n hollbwysig yn ei barn nhw i helpu eu sefydliadau i ymateb i argyfwng Covid-19.</p> <p>Codwyd sawl cwestiwn: <i>Beth yw effaith Covid-19 ar arolygon? (JG)</i> Esboniodd GJ fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) cyn y cyfnod clo wedi paratoi cynlluniau wrth gefn pwysig ynghylch sut y gellid parhau i gynnal arolygon o dan gyfyngiadau'r cyfnod clo. Yn dilyn cyflwyno'r mesurau hynny, daeth y cyfweiliadau wyneb yn wyneb i ben. Nid yw'r</p>		<p><b>Cam gweithredu:</b> GJ i rannu'r lythyr i awdurdodau lleol ynghylch gohirio casglu data a gwahoddod aelodau i nodi a oes unrhyw ddata penodol yn bwysig iawn i'w sefydliadau.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> GJ i gysylltu â chydweithwyr i nodi a yw cwestiynau ynghylch perchen ar anifail anwes wedi'u cynnwys yn arolygon effaith Covid-19.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> GJ i edrych i weld a oes modd cynnal mwy o ymchwil i ddeall effaith Covid-19 ar unigolion BAME.</p>

Arolwg Cenedlaethol, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn flaenorol, wedi'i fyrhau fel bod mod ei gynnal dros y ffôn. Nododd GJ y bydd effaith ar yr Arolwg Amaethyddiaeth ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar strategaeth newydd.

Nododd GJ fod tri goblygiad i barhau i ddadansoddi data a oedd yn cael eu casglu'n rheolaidd gan Lywodraeth Leol a'r Sectorau Cyhoeddus cyn argyfwng Covid-19. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd angen i Lywodraeth Leol a'r Sectorau Cyhoeddus hoelio eu hymdrechion ar ymateb i argyfwng Covid-19 ac nid yw LIC am ychwanegu at y baich sydd eisoes yn cael ei roi ar y cyrff hyn. Yn ail, nododd GJ fod ei dîm ar hyn o bryd yn hoelio eu hymdrechion ar gyflawni gwaith i gefnogi ymateb LIC i'r pandemig ac felly mae'r adnoddau i gasglu a dadansoddi data nad yw'n ymwneud â Covid-19 yn gyfyngedig bellach. Ac yn drydydd, yng ngoleuni'r pandemig, mae perthnasedd rhai allbynnau ystadegol wedi'i leihau.

Nododd GJ y bydd y mater o aildechrau casglu data yn cael ei drafod yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Soniodd y gellir casglu data yn ôl-weithredol neu gellir cyflwyno allbynnau chwarterol yn hytrach na chyhoeddiad blynyddol.

*A oedd cwestiynau ynghylch perchen ar anifail anwes wedi'u cynnwys yn fersiwn yr Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd dros y ffôn? (LC)*

Nododd GJ ei bod yn annhebygol y byddai'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr Arolwg hwn ond byddai GJ yn gwirio gyda chydweithwyr i weld a fyddai cwestiynau ar berchen ar anifail anwes wedi'u cynnwys yn yr arolygon ar effaith Covid-19.

*Sut y mae data ar ôl Covid-19 yn cymharu â data cyn Covid-19? (JG)*  
Cytunodd GJ fod yr argyfwng yn debygol o effeithio ar bob set data LIC.

Nododd SL ddadansoddiad newydd diddorol sy'n cael ei gynnal o fewn KAS, ee cydweithio gydag Iechyd y Cyhoedd Cymru (PHW) i geisio mapio ym mhle yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o wirfoddolwyr wedi'u lleoli ac ym mhle y mae pobl sydd fwyaf mewn angen fel bod modd cyfeirio'r cymorth yn briodol.

*Pa ddata sy'n cael eu casglu ynghylch ethnigrwydd a nodweddion gwarchoddedig eraill? A pha ymchwil sy'n cael ei wneud i effaith anghymesur Covid-19 ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME)? Mae cymorth economaidd yn bryder penodol. (GW)*

Nododd SL ei bod yn rhan o grŵp cynghori BAME ynghylch Covid-19. Soniodd JG am bwysigrwydd yr ymchwil hon ond esboniodd yr heriau o ran casglu data mewn perthynas ag ethnigrwydd mewn cyfnod byr o amser. Nododd GJ y bydd yn trosglwyddo pryderon GW i'w trafod ymhellach.

Nododd GJ y bydd data yn ymwneud â nifer yr unigolion a warchodir ym mhob awdurdod lleol yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

3 Model Cymdeithasol o Anabledd

Sue Leake, Llywodraeth Cymru

Nododd SL y bwriedir cyhoeddi blog Model Cymdeithasol o Anabledd cyn y cyfarfod ond oherwydd yr amgylchiadau presennol, mae'r blog wedi'i ohirio. Esboniodd SL, yng ngoleuni'r Model, mae LIC wedi gwneud y

	penderfyniad i adolygu'r iaith a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol, arolygu pa ddata sy'n cael eu casglu a thrafod gyda sefydliadau eraill ynghylch yr hyn sy'n dod i'r amlwg. Amlinellodd SL y nod i drafod gyda rhannau eraill o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i safoni cwestiynau casglu data yn y dyfodol.	
4	Canlyniadau'r Cyfrifiad Ymarfer a Chynlluniau i Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Cyfrifiad 2021	Neil Townsend, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
	Amlinellodd NT ganlyniadau'r Cyfrifiad ymarfer a'r cynlluniau ar gyfer trafod gyda grwpiau cymunedol. Esboniodd NT y cynhaliwyd yr ymarfer mewn pedwar awdurdod lleol yn y DU, un ohonynt yng Nghymru (Ceredigion). Nododd NT gyfradd ddychwelyd o 52% yng Ngheredigion, y gyfradd uchaf o'r pedwar awdurdod lleol. Darganfuwyd bod y llythyrau atgoffa wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran ysgogi pobl i ymateb. Nododd NT y pwysigrwydd o drafod gydag unigolion o grwpiau ffydd gwahanol, grwpiau anabledd a phobl hŷn cyn Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, soniodd fod pandemig Covid-19 yn cyflwyno her i gyflawni'r nodau ymgysylltu hyn. Nodwyd y sefydliadau priodol yn y trydydd sector yng Nghymru y dylid ymgysylltu â nhw: Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Byrddau'r Sector Cyhoeddus, CGGC a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol.	
5	Datblygu Strategaeth Newydd i Gynnwys Pawb sy'n Defnyddio'r Ystadegau Swyddogol	Tegwen Green, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
	Esboniodd TG ei bod yn arwain ar ddatblygu strategaeth cynnwys defnyddwyr a chynllun gweithredu ar ran Tîm Arfer Da Gwasanaethau Ystadegol y Llywodraeth (GSS). Hybwyd y fenter hon gan Bwyllgor Gweinyddiaeth a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin. Nod y strategaeth yw sicrhau bod yr Ystadegau Swyddogol yn diwallu anghenion y gymdeithas. I gyflawni hynny, mae angen hyrwyddo pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr, datblygu sgiliau ymgysylltu a chasglu a rhannu dealltwriaeth defnyddwyr. Nododd TG fod terfynau amser yn ddarostyngedig i newid oherwydd argyfwng Covid-19 ac, o ganlyniad i'r pandemig, mae'r cynlluniau ar gyfer ymgysylltu wedi'u herio. Croesawodd TG safbwyntiau'r aelodau a oedd yn bresennol ynghylch y ffyrdd gorau o ymgysylltu â defnyddwyr a'r hyn y gellid disgwyl i'r strategaeth ei gyflawni.	<b>Cam gweithredu:</b> Aelodau i ddarparu barn i TG ynghylch y ffyrdd gorau o ymgysylltu â defnyddwyr a'r hyn ddylai strategaeth GSS i Gynnwys Defnyddwyr ei gyflawni.
6	Unrhyw Fater Arall	Glyn Jones, Llywodraeth Cymru
	Ni chodwyd unrhyw fater o bwys. Diolchodd GJ i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.	

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru 30 Ebrill 2020 Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu		
1	Rhannu'r llythyr i awdurdodau lleol ynghylch gohirio casglu data a gwahodd aelodau i nodi a oes yna ddata penodol sy'n bwysig iawn i'w sefydliadau.	Glyn Jones

2	Cysylltu â chydweithwyr i nodi a yw cwestiynau ynglŷn â pherchen ar anifail anwes wedi'u cynnwys yn arolygon effaith Covid-19.	Glyn Jones
3	Edrych i weld a oes modd cynnal mwy o ymchwil i ddeall effaith Covid-19 ar unigolion BAME.	Glyn Jones
4	Yr aelodau i fynegi barn i TG am y ffyrdd gorau o gynnwys defnyddwyr a'r hyn y dylai strategaeth cynnwys defnyddwyr ei gyflawni.	Aelodau